

# Cylchlythyr Mehefin



Mae'n anodd coelio ein bod ar fin dechrau mis olaf y flwyddyn ysgol! Mae amser wedi hedfan! Mae mis Mehefin wedi bod yn fis hwyliog ac mae'r disgyblion a'r ysgol wedi bod yn cymryd rhan mewn nifer o weithgareddau diddorol.

Mae dosbarth Miss Watkins a dosbarth Mrs Roberts-Law wedi bod yn brysur iawn yn dysgu am effaith plastig ar **ein planed** a sut y medrwn leihau defnydd o blastig. Dechreuon drwy ymchwilio faint o sbwriel plastig roedd disgyblion a staff yn taflu amser cinio. Yn deillio o hyn, cynlluniwyd 'Dydd Gwener Dim Plastig'. Aethon ymlaen wedyn i gynllunio bore coffi i ddathlu 'Diwrnod Ein Byd' a chasglu digon o arian i fabwysiadu anifail. Roedd yn fore llwyddiannus iawn a chodwyd £290! Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

Cafodd 22 disgybl o flwyddyn 5 a 6 amser gwych yng ngwersyll **Glan-Ilyn**. Cawsom lawer o hwyl yn gwneud nifer o wahanol weithgareddau fel caiac, canwio, cyfeiriadu, bowlïo deg, saethyddiaeth, wal ddringo, rhaffau uchel, adeiladu rafft a heboca. Roedd y disgyblion wedi ymddwyn yn wych drwy gydol y trip. A diolch mawr i Mrs Margaret Law am ddod gyda ni fel aelod o staff gwirfoddol. Mae Mrs Law wedi bod yn dod i'r ysgol bob Ddydd Mercher i helpu gyda darllen ac rydym yn gwerthfawrogi ei chymorth.

Unwaith eto, cawsom ddiwrnod **mabolgampau** gwych. Roeddem yn eithaf lwcus gyda'r tywydd ond ni wnaeth yr ychydig o law effeithio ar ein hwyliau. Cymerodd pob disgybl rhan mewn 8 gweithgaredd yn y bore i ennill medal efydd, arian neu aur. Yn y prynhawn roedd y rasys grwpiau blwyddyn. Da iawn i enillwyr gwobrau unigol; Evan ac Amelia (rhagoriaeth); Nia (arweinyddiaeth) a Rebecca (ymdrech). Llongyfarchiadau i Tanat, enillwyr y gwpan ar gyfer 2019. Diolch i'r staff a'r gwirfoddolwyr ac i ffrindiau a theuluoedd am ddod i gefnogi.

Mae gennym lwyddiannau tu allan i'r ysgol hefyd. Llongyfarchiadau i fîm hoci blwyddyn 6 a gyrhaeddodd **rownd derfynol hoci Powys** yn Llandrindod a fe ddaethant yn 2il, gan gollu gem agos rhwng Llanfair Caereinion yn y gem derfynol. Chwaraeodd y plant yn wych gan ennill eu gem gynderfynol ar giciau o'r smotyn. Diolch i Jo Harris a Emma Pearce am fynd a nhw i Llandrindod. Hefyd, da iawn i Aled, Jack, Ifan a Evan a aeth i **rownd derfynol tennis Maldwyn** yn Drenwydd. Ni lwyddon i fynd ymhellach na'r grwpiau ond da iawn chi. Ar Ddydd Gwener, aeth disgyblion blwyddyn 5 a 6 i Llangedwyn i **chwarae criced a rownderi**. Diwrnod gwych yn yr haul.

Bu Dosbarth Miss Watkins yn helpu disgyblion ac oedolion i **ddysgu Cymraeg**. Drwy Skype, bu'r disgyblion yn helpu disgyblion blwyddyn 1 a 2 Ysgol Gynradd Cegidfa gyrraedd gwobr arian Cymraeg Campus wrth siarad gyda dosbarth iaith gyntaf mewn ysgol wahanol. A chroesawyd grŵp o oedolion dysgwyr, a ddaeth i'r ysgol i ymarfer eu Cymraeg gyda'r disgyblion. Diolch yn fawr i Gwenan Griffiths am drefnu'r sesiwn.

Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi dechrau derbyn gwersi pwysig am ddiogelwch ar y ffordd. Maent wedi bod yn cerdded drwy'r pentref i ffeindio llefydd diogel i groesi'r ffordd fel rhan o gynllun **Kerbcraft**, a gynhaliwyd gan Bridget Farrington sy'n gweithio i Ddiogelwch ar y Ffyrdd Powys. Mae gennynt 1 sesiwn arall i gwblhau'r rhaglen. Gofynnwch i'ch plentyn am yr hyn maent wedi dysgu ac ymarfer gyda nhw.

Mae **sesiynau ioga** Kirsty yn dod yn amser poblogaidd iawn o'r wythnos a nid yn unig gyda'r disgyblion! Mae staff wedi bod yn ymuno â'r plant i gael sesiynau gwych gan Kirsty. Mae hi wedi bod yn addysgu sut i ymlacio, ymestyn a gwella cryfder corff mewnol. Os oes gennych ddi-ddordeb i wneud ioga fel teulu, mae Kirsty yn cynnal sesiwn rhiant a phlentyn yn neuadd y pentref ar Ddydd Llun am 6y.h. *Namaste!*

Er y tywydd, cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 **brofiad Rhufeinig** gwych yn Amgueddfa Grosvenor yn Gaer. Cawsom gyfleoedd i wisgo fel Rhufeiniaid a dysgu am amffitheatr cyn mynd yn

ôl i'r amgueddfa ar gyfer gwrs am fywyd ac arfwig Rufeinig. Eto rhaid nodi ymddygiad da a brwdfrydedd y disgyblion i gwblhau'r gweithgareddau. Mae'r trip wedi ysgogi nifer o weithgareddau fel creu mosaïg yng ngwrsi celf/DT, creu amddiffynfa Rufeinig gyda siapiau 3D a chreu tŷ Rhufeinig gan ddefnyddio Minecraft, ble bydd blwyddyn 5 a 6 yn hysbysebu fel gwerthwr tai.

Dyma adeg o'r flwyddyn ble rydym yn dechrau gweld hwynebau newydd o amgylch yr ysgol a blwyddyn 6 yn dechrau eu **cyfnod pontio** i'r ysgol uwchradd. Rydym wedi cynnal y sesiwn cyntaf o'r sesiynau dechrau ysgol ar gyfer disgyblion derbyn newydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu yma mis Medi. Daeth staff o Ysgol Uwchradd Llanfyllin i siarad gyda blwyddyn 6. Mae eu diwrnodau pontio ar 3ydd a 4ydd o Orfennaf gyda diwrnod prosiect ychwanegol ar y 5ed.

Cynhaliwyd cyfarfod **CRhA** llwyddiannus i drafod digwyddiadau i ddod a syniadau am sut i wario'r arian a gasglwyd yn yr hwyl haf a bingo'r Pasg. Rhwng y ddau ddigwyddiad, casglwyd swm sylweddol o £2650! Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r digwyddiadau hyn. Ar ddiwedd tymor, ar Ddydd Iau 18 Gorffennaf mae'r CRhA wedi trefnu noson o ddathlu (gweler y ffurflenni ar Parent Mail i archebu bwyd ac am fwy o wybodaeth). Mae casgliad bagiau Draig wedi cael ei drefnu ar gyfer Gorffennaf 10fed. Mae gennym bentwr mawr o fagiau yn neuadd yr ysgol, felly dewch a'ch bagiau i mewn cyn gynted â phosib. Ar Fedi 8fed, bydd y CRhA unwaith eto yn cynnal safleoedd dŵr yn Hanner Marathon Llyn Llanwddyn. Rhowch y dyddiad hwn yn eich dyddiadur!

I gloi hoffwn ddiolch yn fawr iawn i holl staff yr ysgol a'r disgyblion am eu gwaith caled y flwyddyn hon. Nid yw ar ben eto, ond cawsom ein **hymwelid cefnogaeth** gan Bowys ble rhoddwyd feirniad fod yr ysgol yn gwneud datblygiad cryf ym mhob ardal datblygu. Mae'r staff yn gweithio'n galed iawn i gael y gorau o'r disgyblion ac ar y diwrnod, roedd y disgyblion yn wych, gan siarad am eu gwaith a'u prosiectau gyda brwdfrydedd a balchder. Dwi'n gwerthfawrogi'n fawr cael bod yn rhan o deulu ysgol arbennig.

Cofion,



Mr Jonathan Richards

<b>2/7/19</b>	Sgwrs bl 6 tyfu i fyny gyda nyrs	<b>Hysbysiadau</b>
<b>3-5 Gorffennaf</b>	Cyfnod Pontio bl 6 i Ysgol Uwchradd	<b>Bagiau dillad draig</b> Gorffennaf 10fed.
<b>3/7/19</b>	Bore plant derbyn newydd/Pontio bl 2	<b>Clwb chwaraeon</b> Dydd Mercher tan 4.30. <b>Bydd yr un olaf ar Orfennaf 3ydd.</b>
<b>10/7/19</b>	Plant derbyn newyddtrwy'r dydd Bagiau Draig Noson Rhieni ADY	Cysylltwch â ni ar <b>01691 780352</b> neu <b>office@llanrhaeadr.powys.sch.uk</b>
<b>12/7/19</b>	Diwrnod Chwaraeon (Pawb yn CA2)	<b>Gwiriwch eich ParentPay am unrhyw ddyledion. Mae Cyngor Sir Powys wedi cysylltu â'r ysgol i atgoffa rhieni am ddyledion. Diolch.</b>
<b>16/7/19</b>	Area Sports @ Llanfyllin	
<b>18/7/19</b>	Gwasanaeth bl 6 Noson o ddathlu CRhA	
<b>19/7/19</b>	Diwrnod olaf y tymor	
<b>2/9/19</b>	Diwrnod dim disgyblion	
<b>3/9/19</b>	Nôl i'r ysgol	